



S4C DIGITAL MEDIA LIMITED
Y GRONFA GYDGYNHYRCHU: CANLLAWIAU BUDDSODDI

Cyhoeddwyd yn wreiddiol: Gorffennaf 2011
Diwygiwyd: Ebrill 2012
2ail Ddiwygiad: Tachwedd 2012

1. Cyflwyniad

Mae S4C Digital Media Limited ("SDML"), is-gwmni masnachol i S4C, wedi penderfynu sefydlu cronfa gydgyhyrchu (y "Gronfa") i weithredu ar sail fasnachol. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys mwy o fanylion am y Gronfa a'r canllawiau buddsoddi a fydd yn berthnasol iddi.

2. Beth yw maint y Gronfa?

£1m yw maint y Gronfa i ddechrau. Bydd £1m pellach ar gael bob blwyddyn yn 2012, 2013 a 2014.

3. Beth all y Gronfa fuddsoddi ynddo?

Gall y Gronfa fuddsoddi mewn cynnwys ar gyfer S4C, neu mewn brandiau neu gymeriadau sy'n gysylltiedig â chynnwys S4C, sydd â'r potensial i greu elw masnachol ar fuddsoddiad.

Gall y Gronfa, er enghraifft, fuddsoddi mewn:

- (i) Cydgynyrchiadau i'w darlledu ar S4C. Gallai'r rhain gynnwys cynhyrchu fersiynau mewn ieithoedd heblaw Cymraeg neu fersiynau amlieithog gyda darlledwyr eraill yn chwarae rhan.
- (ii) Cynyrchiadau ar gyfer S4C sydd wedi'u cydgyllido. Efallai na fyddai'r rhain yn cynnwys darlledwr arall, ond byddai rhan o'r cyllid cynhyrchu'n cael ei godi o'r tu allan i grŵp S4C oherwydd potensial masnachol y cynnwys.
- (iii) Cynnwys neu fformatau i S4C sydd â photensial masnachol. Efallai na fyddai hyn yn cynnwys darlledwr neu ffynhonnell gyllido arall, ond byddai gan y cynnwys neu'r fformat botensial masnachol y tu hwnt i'r gwerth darlledu i S4C.
- (iv) Masnacheiddio cynnwys S4C neu frandiau neu gymeriadau sy'n deillio o gynnwys S4C e.e. trwy nwyddau, DVDs, cyhoeddiadau, gemau ac ati.

Y genres canlynol yw'r tebycaf i ennyn buddsoddiad gan y Gronfa, ond bydd SDML yn ystyried buddsoddi mewn genres eraill ble bo'n berthnasol:

Plant

Animeiddio

Ffeithiol

Cyfresi drama gyda'r potensial i werthu mewn tiriogaethau eraill

4. Beth yw amcanion y Gronfa?

Mae nifer o amcanion i'r Gronfa:

- (i) Creu elw masnachol ar fuddsoddiadau i SDML, naill ai i'w ail-fuddsoddi yn y Gronfa neu i'w gwneud yn bosib talu didend i gronfa gwasanaeth cyhoeddus S4C.
- (ii) Helpu i ddenu cyllid ychwanegol o ffynonellau eraill ar gyfer cynnwys. Trwy weithredu mewn partneriaeth gyda darlledwyr a chyllidwyr eraill, rhagwelir y byddai S4C yn cyfranogi mewn cydgynyrchiadau sy'n rhoi gwerth uwch ar y sgrin na phe bai cynhyrchiad yn cael ei gyllido'n llawn gan S4C.
- (iii) Hybu cynaliadwyedd a chystadleurwydd cyflenwyr rhaglenni S4C trwy weithio gyda hwy i ddatblygu partneriaethau gyda darlledwyr eraill, cyllidwyr a dosbarthwyr a cheisio llwybrau ar gyfer manteisio'n fasnachol ar yr eiddo deallusol a gaiff ei greu ganddynt.

Tra bo cyflawni'r amcanion yn (ii) a (iii) yn ddymunol, mae cyflawni'r amcan yn (i) yn un o'r rhagofynion ar gyfer pob buddsoddiad.

5. Sut fydd y Gronfa'n penderfynu a yw'n mynd i fuddsoddi ai peidio?

Ar yr amod bod y math o fuddsoddiad yn un y gall y Gronfa ei wneud (gweler 3 uchod), bydd y Gronfa'n ystyried y meini prawf canlynol wrth benderfynu a yw'n mynd i fuddsoddi ai peidio:

- (i) Lefel yr elw masnachol y mae disgwyl i'r buddsoddiad ei greu, y cyfnod pryd y mae disgwyl cael yr elw hwnnw a maint y risg sy'n gysylltiedig â'r buddsoddiad. Dylai gwerth net presennol y buddsoddiad dros 5 mlynedd fod o leiaf 115% o'r swm a fuddsoddiwyd. Ar gyfer y cyfrifiad hwn, dylid disgowntio'r rhagamcanion gwerthiant canolig o 30%. Bydd SDML yn asesu apêl olygyddol y cynnwys a'r potensial ar gyfer ymelwa'n fyd-eang ar yr eiddo deallusol a gaiff ei greu. Bydd SDML hefyd yn cwblhau gwiriadau diwydrwydd dyladwy o'r trefniadau ar gyfer dosbarthu neu ymelwa, cynlluniau marchnata a rhagamcaniadau o werthiant.
- (ii) Faint o gyllid o ffynonellau eraill y mae'r cynhyrchydd yn gallu ei ddenu. Cyn bwrw ymlaen, bydd ar SDML angen tystiolaeth bod yr elfennau eraill o'r pecyn cyllido ar gael o ffynonellau dibynadwy.
- (iii) I ba raddau y mae'r prosiect yn cyfrannu at gynaliadwyedd a chystadleurwydd cynhyrchydd rhaglenni i S4C. Bydd SDML yn ystyried, er enghraifft, a yw'r prosiect yn galluogi'r cynhyrchydd i fuddsoddi mewn datblygu sgiliau a thalent; i werthu cynnwys i ddarllidwyr heblaw S4C ac/neu i greu elw masnachol o'r eiddo deallusol a grëwyd.
- (iv) Ffactorau eraill y gall SDML ystyried eu bod yn berthnasol neu'n rhesymol yng nghydestun yr amcanion a restrir yn 4 uchod. Bydd gwiriadau diwydrwydd dyladwy SDML yn cynnwys, er enghraifft, hanes y tîm cynhyrchu, ei allu i gyflawni ac adolygiad o gyllideb y cynhyrchiad.

6. Faint fydd y Gronfa'n ei fuddsoddi?

Fel canllaw cyffredinol, bydd y buddsoddiadau unigol rhwng £50,000 a £200,000 ac ni fydd y Gronfa'n buddsoddi mwy na 15% o gyfanswm y gyllideb ar gyfer cynhyrchiad. Yn ogystal, ni fydd y Gronfa'n buddsoddi mwy na 50% o werth net presennol y rhagamcanion gwerthiant canolig wedi eu disgowntio.

Gall cyfarwyddwyr gweithredol SDML (yn gweithredu drwy fwyafrif) gymeradwyo buddsoddiadau unigol o hyd at £200,000. Gall y Gronfa wneud buddsoddiadau y tu hwnt i'r swm yma os gellir cyfiawnhau hynny dan amgylchiadau arbennig, yn amodol ar gymeradwyaeth Bwrdd SDML.

7. Ar ba delerau fydd y Gronfa'n buddsoddi?

Cydnabyddir y bydd y telerau masnachol yn amrywio ym mhob achos yn ôl natur y ddêl a gofynion y partïon eraill. Fodd bynnag, bydd angen i'r telerau gynnwys y canlynol:

- (i) Bydd y Gronfa mewn safle blaenoriaethol ar gyfer adennill y buddsoddiad a wnaed ganddi, gan ei bod yn buddsoddi fel buddsoddwr masnachol.
- (ii) Bydd y Gronfa'n derbyn cyfran o'r derbyniadau net/yr ôl-enillion (h.y. y ffrwd incwm yn y dyfodol ar ôl ad-dalu'r cyllid adenilladwy) sy'n ddigon i greu'r elw masnachol

disgwyliedig. Lle nad yw'r rhagamcaniadau'n dangos bod disgwyl derbyn refeniwiau digonol ar y diwedd, bydd SDML yn mynnu premiwm a fydd yn daladwy wrth adennill y swm a fuddsoddiwyd. Bydd SDML, fel isafswm, yn ceisio telerau nad ydynt yn llai ffafriol na buddsoddwyr masnachol eraill.

- (iii) Bydd SDML yn mynnu arwystl cyfreithiol cyntaf ar unrhyw gynhyrchiad y mae'n ei ariannu, gyda llythyr o ddarostyngiad gan unrhyw un sydd eisoes yn dal arwystl.
- (iv) Mae gofynion eraill a fydd yn gysylltiedig â'r buddsoddiad yn debygol o gynnwys y canlynol:
 - Trefniadau dosbarthu boddhaol a rhagamcaniadau boddhaol o incwm a thryloywder y trefniadau cyfrifyddu mewn perthynas ag incwm gwerthiant.
 - Cytuno ar y gyllideb gynhyrchu ac ar y camau yn y broses gynhyrchu pryd y bydd SDML yn darparu cyllid.
 - SDML i fod yn fuddiolwr dan bolisiau yswiriant ar gyfer y cynhyrchiad.
 - Ymgeiswyr i dalu costau cyfreithiol SDML (mewnol neu allanol) mewn perthynas â'r buddsoddiad, fydd yn cael eu priodoli wedyn i'r gyllideb gynhyrchu.

Byddai angen cymeradwyaeth SDML cyn gwyro mewn unrhyw ffordd oddi wrth y telerau hyn.

Mae telerau ac amodau eraill wedi'u cynnwys yn nogfennau cyllido safonol SDML.

8. Beth yw'r broses ar gyfer ceisio buddsoddiad o'r Gronfa?

Gofynnir i ymgeiswyr gwblhau'r ffurflen gais sydd ar gael drwy'r linc canlynol:

[Ffurflen Gais y Gronfa Gydgynhyrchu](#)

ac i anfon y ffurflen ac unrhyw wybodaeth bellach i'r cyfeiriad e-bost – cydgynhyrchu@s4c.cymru

Gofynnir i ymgeiswyr gyflwyno'u ceisiadau mor gynnar â phosib cyn i'r cynhyrchiad ddechrau, ond beth bynnag o leiaf 3 mis cyn hynny.

Unwaith y bydd cais wedi cael ei wneud, bydd SDML yn cysylltu â'r ymgeisydd i asesu'r cynnig mewn mwy o fanylder. Os nad yw SDML yn dymuno bwrw ymlaen, bydd yr ymgeiswyr yn cael eu hysbysu ynghylch hyn ar unwaith. Ceidw SDML yr hawl i beidio â rhoi rhesymau dros wrthod, ond byddai fel arfer yn rhoi gwybod i ymgeiswyr pam fod eu cais yn cael ei wrthod. Ni fydd SDML yn cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch cymhwyster neu addasrwydd cynigion – fel endid masnachol, mae SDML yn gwneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi yn ôl ei fuddiannau ei hun a'i ddisgresiwn ei hun.

Ni fydd unrhyw bobl sy'n gysylltiedig mewn ffordd uniongyrchol â dyfarnu comisiynau ar gyfer S4C yn rhan o wneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi ar ran y Gronfa. Os bydd SDML yn dymuno bwrw ymlaen, bydd cynnig yn cael ei wneud i'r ymgeisydd, yn amodol ar gontract ac unrhyw amodau eraill. Os derbynnir y cynnig, ceir cyfnod wedyn o ddrafftio dogfennau cyllido a chynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy pellach.

9. Cyffredinol

Gall y canllawiau hyn gael eu hadolygu o bryd i'w gilydd gan Fwrdd SDML.